


BRO DWYNWEN 3/12/2023
Sul Cyntaf yr Adfent
First Sunday of Advent



Collect 1

Hollalluog Dduw,
dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch
ac i wisgo arfau'r goleuni,
yn awr yn y bywyd marwol hwn
a brofwyd gan dy Fab Iesu Grist
pan ymwelodd â ni mewn gostyngeiddrwydd mawr;
fel y bo i ni yn y dydd diwethaf,
pan ddaw drachefn yn ei fawredd gogoneddus
i farnu'r byw a'r meirw, gyfodi i'r bywyd anfarwol;
trwyddo ef sy'n fyw ac yn teyrnasu
gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 1

Almighty God,
give us grace to cast away the works of darkness
and to put on the armour of light, now in the time of this mortal life,
in which your Son Jesus Christ came to us in great humility;
that on the last day,
when he shall come again in his glorious majesty
to judge the living and the dead, we may rise to the life immortal;
through him who is alive and reigns with you
and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Eseia 64. 1-9

O na fuaset wedi rhwygo'r nefoedd, a dod i lawr, a'r mynyddoedd yn toddi o'th flaen, fel tân yn llosgi prysgwydd, fel dŵr yn berwi ar dân, er mwyn i'th enw ddod yn hysbys i'th gaseion, ac i'r cenhedloedd grynu yn dy ŵydd! Pan wnaethost bethau ofnadwy heb i ni eu disgwyl, daethost i lawr, a thoddodd y mynyddoedd o'th flaen. Ni chlywodd neb erioed, ni ddaliodd clust, ni chanfu llygad unrhyw Dduw ond tydi, a wnâi ddim dros y rhai sy'n disgwyl wrtho.

'Rwyf yn cyfarfod â'r rhai sy'n hoffi gwneud cyfiawnder, y rhai sy'n cofio am dy ffyrdd. Er dy fod yn digio pan oeddem ni'n pechu, eto 'roeddem yn dal i droseddu yn dy erbyn. Aethom i gyd fel peth aflan, a'n holl gyfiawnderau fel clytiau budron; yr ydym i gyd wedi crino fel deilen, a'n camweddau yn ein chwythu i ffwrdd fel y gwynt. Ac nid oes neb yn galw ar dy enw, nac yn trafferthu i afael ynot; cuddiaist dy wyneb oddi wrthym, a'n traddodi i afael ein camweddau. Ond tydi, O ARGLWYDD, yw ein tad; ni yw'r clai a thi yw'r crochenydd; gwaith dy ddwylo ydym i gyd. Paid â digio'n llwyr, ARGLWYDD, na chofio camwedd am byth. Edrych, yn awr, dy bobl ydym ni i gyd.

Isaiah 64. 1-9

O that you would tear open the heavens and come down, so that the mountains would quake at your presence - as when fire kindles brushwood and the fire causes water to boil - to make your name known to your adversaries, so that the nations might tremble at your presence! When you did awesome deeds that we did not expect, you came down, the mountains quaked at your presence. From ages past no one has heard, no ear has perceived, no eye has seen any God besides you, who works for those who wait for him. You meet those who gladly do right, those who remember you in your ways. But you were angry, and we sinned; because you hid yourself we transgressed. We have all become like one who is unclean, and all our righteous deeds are like a filthy cloth.

We all fade like a leaf, and our iniquities, like the wind, take us away. There is no one who calls on your name, or attempts to take hold of you; for you have hidden your face from us, and have delivered us into the hand of our iniquity. Yet, O LORD, you are our Father; we are the clay, and you are our potter; we are all the work of your hand. Do not be exceedingly angry, O LORD, and do not remember iniquity for ever. Now consider, we are all your people.

Salm 80. 1-7, [17-19]

1-7 Gwrandu, O fugail Israel, sy'n arwain Joseff fel diadell.

Ti sydd wedi dy orseddu ar y cerwbiaid, disgleiria i Effraim, Benjamin a Manasse. Gwna i'th nerth gyffroi, a thyrd i'n gwaredu.

Adfer ni, O Dduw; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.

O ARGLWYDD Dduw y Lluedd, am ba hyd y byddi'n ddig wrth weddïau dy bobl?

Yr wyt wedi eu bwydo â bara dagrau, a'u diodi â mesur llawn o ddagrau.

Gwnaethost ni'n ddirmyg i'n cymdogion, ac y mae ein gelynion yn ein gwawdio.

O Dduw'r Lluedd, adfer ni; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.

[17-19] Ond bydded dy law ar y sawl sydd ar dy ddeheulaw, ar yr un yr wyt ti'n ei gyfnerthu.

Ni thrown oddi wrthyt mwyach; adfywia ni, ac fe alwn ar dy enw.

ARGLWYDD Dduw y Lluedd, adfer ni; bydded llewyrch dy wyneb arnom, a gwareder ni.

Psalm 80. 1-7, [17-19]

1-7 Give ear, O Shepherd of Israel, you who lead Joseph like a flock! You who are enthroned upon the cherubim, shine forth before Ephraim and Benjamin and Manasseh. Stir up your might, and come to save us!

Restore us, O God; let your face shine, that we may be saved. O LORD God of hosts, how long will you be angry with your people's prayers? You have fed them with the bread of tears, and given them tears to drink in full measure. You make us the scorn of our neighbours; our enemies laugh among themselves. Restore us, O God of hosts; let your face shine, that we may be saved.

[17-19] But let your hand be upon the one at your right hand, the one whom you made strong for yourself. Then we will never turn back from you; give us life, and we will call on your name. Restore us, O LORD God of hosts; let your face shine, that we may be saved.

1 Corinthaid 1. 3-9

Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth Dduw ein Tad a'r Arglwydd Iesu Grist.

Yr wyf yn diolch i'm Duw bob amser amdanoch chwi, ar gyfrif y gras dwyfol a roddwyd ichwi yng Nghrist Iesu,

am eich cyfoethogi ynddo ef ym mhob peth, ym mhob ymadrodd a phob gwybodaeth,

fel bod y dystiolaeth am Grist wedi ei chadarnhau yn eich plith.

Oherwydd hyn, nid ydych yn ddiffygiol mewn unrhyw ddawn, wrth ichwi ddisgwyl am ddatguddiad ein Harglwydd Iesu Grist.

Bydd ef yn eich cadw'n gadarn hyd y diwedd, fel na bydd cyhuddiad yn eich erbyn yn Nydd ein Harglwydd Iesu Grist.

Y mae Duw'n ffyddlon, a thrwyddo ef y'ch galwyd chwi i gymdeithas ei Fab ef, Iesu Grist ein Harglwydd ni.

1 Corinthians 1. 3-9

Grace to you and peace from God our Father and the Lord Jesus Christ.

I give thanks to my God always for you because of the grace of God that has been given you in Christ Jesus, for in every way you have been enriched in him, in speech and knowledge of every kind - just as the testimony of Christ has been strengthened among you - so that you are not lacking in any spiritual gift as you wait for the revealing of our Lord Jesus Christ. He will also strengthen you to the end, so that you may be blameless on the day of our Lord Jesus Christ. God is faithful; by him you were called into the fellowship of his Son, Jesus Christ our Lord.

Marc 13. 24-37

"Ond yn y dyddiau hynny, ar ôl y gorthrymder hwnnw, 'Tywyllir yr haul, ni rydd y lloer ei llewyrch, syrth y sêr o'r nef, ac ysgydwir y nerthoedd sydd yn y nefoedd.'

A'r pryd hwnnw gwelant Fab y Dyn yn dyfod yn y cymylau gyda nerth mawr a gogoniant.

Ac yna'r anfona ei angylion a chynnull ei etholedigion o'r pedwar gwynt, o eithaf y ddaear hyd at eithaf y nef.

Dysgwch wers oddi wrth y ffigysbren. Pan fydd ei gangen yn ir ac yn dechrau deilio, gwyddoch fod yr haf yn agos.

Felly chwithau, pan welwch y pethau hyn yn digwydd, byddwch yn gwybod ei fod yn agos, wrth y drws.

Yn wir, rwy'n dweud wrthych, nid â'r genhedlaeth hon heibio nes i'r holl bethau hyn ddigwydd.

Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim.

Ond am y dydd hwnnw neu'r awr ni wŷyr neb, na'r angylion yn y nef, na'r Mab, neb ond y Tad.

Gwylwch, byddwch effro; oherwydd ni wyddoch pa bryd y bydd yr amser.

Y mae fel dyn a aeth oddi cartref, gan adael ei dŷ a rhoi awdurdod i'w weision, i bob un ei waith, a gorchymyn i'r porthor wyllo.

Byddwch wyladwrs gan hynny - oherwydd ni wyddoch pa bryd y daw meistr y tŷ, ai gyda'r hwyr, ai ar hanner nos, ai ar ganiad y ceiliog, ai yn fore - rhag ofn iddo ddod yn ddisymwth a'ch cael chwi'n cysgu. A'r hyn yr wyf yn ei ddweud wrthych chwi, yr wyf yn ei ddweud wrth bawb: byddwch wyladwrs."

Mark 13. 24-37

‘But in those days, after that suffering, the sun will be darkened, and the moon will not give its light, and the stars will be falling from heaven, and the powers in the heavens will be shaken. Then they will see “the Son of Man coming in clouds” with great power and glory. Then he will send out the angels, and gather his elect from the four winds, from the ends of the earth to the ends of heaven.

From the fig tree learn its lesson: as soon as its branch becomes tender and puts forth its leaves, you know that summer is near. So also, when you see these things taking place, you know that he is near, at the very gates. Truly I tell you, this generation will not pass away until all these things have taken place. Heaven and earth will pass away, but my words will not pass away.

But about that day or hour no one knows, neither the angels in heaven, nor the Son, but only the Father. Beware, keep alert; for you do not know when the time will come. It is like a man going on a journey, when he leaves home and puts his slaves in charge, each with his work, and commands the doorkeeper to be on the watch. Therefore, keep awake - for you do not know when the master of the house will come, in the evening, or at midnight, or at cockcrow, or at dawn, or else he may find you asleep when he comes suddenly. And what I say to you I say to all: Keep awake.’

Ôl Gymun 2

O Dduw ein gwareddwr, deffro ein calonnau
i baratoi'r ffordd ar gyfer dyfodiad dy Fab;
fel, â meddyliau wedi eu puro gan ras ei ddyfodiad,
y bo i ni dy wasanaethu'n ffyddlon gydol ein dyddiau;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 2

God our deliverer, awaken our hearts
to prepare the way for the advent of your Son;
that, with minds purified by the grace of his coming,
we may serve you faithfully all our days; through Jesus Christ our Lord.